# Paratoi ceffylau ar gyfer ymddangosiad cyhoeddus

## Trosolwg

Mae'r safon hon yn cynnwys paratoi ceffylau ar gyfer ymddangosiad cyhoeddus.  Mae hyn yn cynnwys tocio a phlethu mwng a chynffonau'r ceffylau, lle maent yn cael eu harddangos i'r cyhoedd. Bydd angen i chi allu defnyddio dulliau addas o atal yn ystod y gwaith, a defnyddio'r offer yn ddiogel ac yn gywir.

Bydd angen i chi fod yn gwbl ymwybodol o bwysigrwydd iechyd a lles anifeiliaid mewn cysylltiad â'r gweithgaredd hwn.

Bydd angen i chi adnabod peryglon ac asesu risg yn y gweithle

## Meini prawf perfformiad

*Rhaid i chi allu:*

1. dewis a gwisgo'r dillad a'r offer amddiffynnol personol priodol ar gyfer y gweithgaredd
2. cadarnhau'r gofynion ar gyfer paratoi'r ceffyl ar gyfer ymddangosiad cyhoeddus gyda'r person priodol
3. dewis a defnyddio'r offer a'r cyfarpar cywir ar gyfer y gwaith
4. trin ac atal y ceffyl mewn ffordd nad yw'n peryglu lles anifeiliaid, sy'n osgoi ymddygiad sy'n achosi pryder yn ymwneud â lles ac sy'n cynnal iechyd a diogelwch
5. tynnu mwng a/neu gynffon ceffyl os yw'n briodol ac yn unol â disgyblaeth neu ofynion
6. tocio ceffyl yn unol â disgyblaeth neu ofynion
7. plethu mwng a/neu gynffon ceffyl yn unol â disgyblaeth neu ofynion
8. gosod marciau chwarthor yn unol â disgyblaeth neu ofynion
9. monitro a chynnal eich iechyd a'ch diogelwch eich hun ac eraill, a lles y ceffyl, yn ystod y gweithgaredd

## Gwybodaeth a dealltwriaeth

*Mae angen i chi wybod a deall:*

1. sut i ddewis, defnyddio a gofalu am offer amddiffynnol personol
2. pwysigrwydd defnyddio technegau trin ac atal priodol a lleihau straen i'r ceffyl a pheryglon i chi eich hun ac eraill
3. y mathau o offer a chyfarpar a ddefnyddir ar gyfer y gwaith a'u defnydd cywir
4. sut i dynnu mwng a/neu gynffon ceffyl a phryd y byddai hyn yn briodol
5. sut i blethu a thocio mwng a/neu gynffon ceffyl, a gosod marciau chwarthor
6. amrywiad y gofynion ar gyfer disgyblaethau gwahanol ar gyfer tocio a phlethu mwng a/neu gynffon ceffyl
7. y safonau paratoi sy'n ofynnol ar gyfer ymddangosiadau cyhoeddus lefel uchel
8. y peryglon i geffylau, i chi eich hun ac eraill a sut y caiff y rhain eu rheoli
9. eich cyfrifoldebau yn unol â deddfwriaeth a chodau ymarfer iechyd a lles anifeiliaid ac iechyd a diogelwch perthnasol

## Geirfa

Gall tocio gynnwys:

- blew
- sodlau
- llinell yr ên
- cynffon

Paratoi ceffylau ar gyfer ymddangosiad cyhoeddus

| | |
|---|---|
| **Datblygwyd gan** | Lantra |
| **Dyddiad cymeradwyo** | 31 Ion 2017 |
| **Dyddiad Adolygu Dangosol** | 31 Ion 2021 |
| **Dilysrwydd** | Ar hyn o bryd |
| **Statws** | Gwreiddiol |
| **Sefydliad cychwynnol** | Lantra |
| **RCU gwreiddiol** | LANEq309 |
| **Galwedigaethau perthnasol** | Cynorthwyydd Ceffylau |
| **Cyfres/Set** | Ceffylau |
| **Geiriau Allweddol** | ceffylau; ceffyl; tocio; plethu; mwng; cynffon; atal; iechyd a lles anifeiliaid |